



CWTSH MYRDDIN

Rhifyn – 15.06.2018

Cynllun Dosbarth Busnes

Llongyfarchiadau i Sara Jones a enillodd cystadleuaeth ar draws ysgolion Sir Gâr am ysgrifennu erthygl ar y gêm rhwng y Sgarlets a'r Dreigiau ar ddiwrnod 'Dydd y Farn.' Noddwyd y gystadleuaeth gan y Principality fel rhan o'r Cynllun Dosbarth Busnes a'i gwobr oedd IPad sy'n cael ei rhoi iddi yn y llun gan James Harper o'r Principality.



Ffarwelio

Ar ddiwedd blwyddyn academaidd arall mae'r ysgol yn dymuno pob dymuniad da i Mrs Rhian Bowen, Pennaeth yr Adran Fusnes ar ei hymddeoliad ar ôl bod yn yr ysgol am bron i ugain o flynyddoedd.

Chwaraewraig hoci'r flwyddyn

Llongyfarchiadau i Betsan Thomas bl 9 am dderbyn tlws chwaraewraig y flwyddyn yng nghyngrair hoci menywod de Cymru. Camp arbennig Betsan



Ymweld â Gorsaf dân Caerfyrddin

Bu 5 o ddisgyblion blwyddyn 9 i Orsaf Tân Caerfyrddin fel rhan o gwrs y Prince's Trust. Bu'r disgyblion yn dilyn rhaglen 'Firefighter for the day'. Cafwyd cyfle i ddefnyddio offer, gweithio fel tîm a datrys problemau ymarferol.



Taith i ymweld ag Eglwys y Tabernacl a Chapel y Priordy

Bore Gwener yr 25ain o Fehefin aeth blwyddyn 7 ar daith Astudiaethau Crefyddol i ymweld ag Eglwys y Tabernacl a Chapel y Priordy gan eu bod yn astudio defodau derbyn fel rhan o'u hastudiaethau'r tymor hwn.

Cawsom groeso cynnes gan y Parchedig Mr Peter Cutts yn Eglwys y Bedyddwyr, Y Tabernacl a eglurodd pam mai dim ond pobl ifanc ac oedolion mae'r Eglwys yn ei fedyddio. Fe ddangosodd bwerbwyt am hanes Bedydd y Credinwyr ac fe ddywedodd bod Iesu wedi cael ei Fedyddio yn afon yr Iorddonen. Fesul rhes cafodd y disgyblion gyfle i esgus gweld Crediniwr yn cael ei bedyddio yn y fedyddfa sef y pwll a ddefnyddir i drochi credinwyr. Roedd yn brofiad newydd i'r mwyafrif o'r disgyblion i weld y fedyddfa. I gloi cafodd y disgyblion gyfle i holi cwestiynau cyn mynd i Gapel y Priordy.

Yng nghapel Y Priordy roedd y Parchedig Beti Wyn James yn esbonio bedydd baban. Cawsom gyfle i ail greu gwasanaeth bedydd gyda disgyblion blwyddyn 7 yn cymryd rhan rôl rhieni a rhieni bedydd. Eglurodd nad oedd bedyddfaen i'w gael yn y capel ar gyfer bedydd ond bod bowlen yn cael ei defnyddio i ddal y dŵr. Ar ddiwedd y gwasanaeth cafodd y disgyblion gyfle i holi cwestiynau cyn dychwelyd yn ôl i'r ysgol. Hoffem ar ran yr Adran Astudiaethau Crefyddol ddiolch yn fawr iawn i'r Parchedig Mr Peter Cutts a'r Parchedig Beti Wyn James am y cyfle i ymweld â'r Eglwysi ac am eu hamser gwerthfawr a chyflwyniadau diddorol.

Adroddiad gan Erin Jones 7-5

Llwyddiant Bro Myrddin yn Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed 2018


Bu'n Eisteddfod lwyddiannus dros ben i Ysgol Bro Myrddin eleni eto gyda 34 o eitemau yn teithio i Faes y Sioe ym Mrycheiniog a Maesyfed yn ystod wythnos y Sulgwyn. O'r 34 eitem, bu 17 yn llwyddiannus iawn a chael gwobr gyntaf, ail neu drydydd.

Enillwyd 9 gwobr gyntaf sef: Alaw Grug Evans yn Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl. 10 a dan 19 oed, Ensemble Lleisiol Bro Myrddin Bl. 10 a dan 19 oed, Côr Cerdd Dant Bl. 13 ac iau Bro Myrddin, Grŵp Cerdd Dant Bl. 10 a dan 19 oed Bro Myrddin, Tîm Siarad Cyhoeddus Bl. 10 a dan 19 oed Bro Myrddin a Chôr S.A.T.B. Bl. 13 ac iau Bro Myrddin. Daeth Ffion Lewis i'r brig gyda'i Dyluniad 2D Bl 7-9, enillodd Daniel Griffiths y gystadleuaeth Farddoniaeth bl 9 a chafodd Anell Dyfri'r wobr gyntaf am Gyfansoddi Sgript Wreiddiol (bl 10 a dan 19).

Enillwyd yr ail wobr gan Betsan Campbell yn y gystadleuaeth Dawns Werin Unigol i Ferched Bl. 9 ac iau, Alaw Grug ac Elin Fflur yn y ddeuawd Bl. 10 a dan 19 oed a Pharti Cerdd Dant Bro Myrddin Bl. 7, 8 a 9.

Cawsom sawl 3ydd gwobr hefyd gan gynnwys Bryn Richards yn chwarae'r drymiau yn yr Unawd Offer Taro Bl. 7-9, Siwan Mair yn yr Unawd Cerdd Dant Bl. 7-9, Celyn a Hanna yn y Ddeuawd Cerdd Dant Bl. 10 a dan 19 oed, ein Grŵp Llefaru Bl. 10 a dan 19 oed, a Llew Richards ar y gystadleuaeth Barddoniaeth bl 9.

Rhaid diolch i'r holl gystaddeuwr, yr hyfforddwr a'r trefnwyr am eu gwaith diflino. Edrychwn ymlaen at Eisteddfod 2019 yng Nghaerdydd.



Gystadleuaeth Barddoni Divine 2018

Llongyfarchiadau i Elis Roderick enillodd Gystadleuaeth Barddoni Divine 2018 adran uwchradd am greu cerdd.